OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1400 (Cy.139)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 31 Mai 2002.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), ar gyfer y diffiniadau o "NC tests" (yn y ddau le) a "NC tasks" amnewidiwch —

> ""NC tests" and "NC tasks" means, respectively, National Curriculum tests and National Curriculum tasks administered to pupils in accordance with the statutory arrangements;".

(3) Yn Atodlen 3, hepgorwch—

(a) ym mharagraff 18, yn is-baragraff (3) y geiriau "Subject to sub-paragraph (8)" a'r geiriau "and specifying the percentage of pupils who were absent from the NC tests";

(b) ym mharagraff 18, yn is-baragraff (5) y geiriau "Subject to sub-paragraph (8)"; ac

(c) ym mharagraff 18, is-baragraff (8).

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 537(4) gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), adran 537(1) gan baragraff 152 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) ac adran 537(7) gan baragraff 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1999/1812, wedi'i ddiwygio gan O.S. 2001/1111 (Cy.55) ac O.S. 2001/3710 (Cy. 306).